# CABINET

## COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD YN NHŶ PENALLTA, TREDOMEN AR DDYDD MERCHER, 27 MAWRTH 2019 AM 10.30 AM

YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd D. Poole - Cadeirydd

Cynghorwyr:

C. Cuss (Gofal Cymdeithasol a Lles), N. George (Gwasanaethau'r Gymdogaeth), C.J. Gordon (Gwasanaethau Corfforaethol), Mrs B.A. Jones (Cyllid, Perfformiad a Llywodraethu), P. Marsden (Addysg a Chyflawniad), S. Morgan (Economi, Isadeiledd a Chynaliadwyedd), L. Phipps (Cartrefi a Lleoedd) ac E. Stenner (Yr Amgylchedd a Diogelwch y Cyhoedd).

Ar y cyd gyda:

C. Harrhy (Prif Weithredwr Dro Dro), E. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol), ac M. S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro - Cymunedau).

Hefyd yn Bresennol:

L. Donovan (Pennaeth Gwasanaethau Pobl), V. Doyle (Swyddog Polisi (Ystadegau ac Ariannu), C. Edwards (Rheolwr Iechyd yr Amgylchedd), M. Godfrey (Arweinydd Tîm - Iechyd yr Amgylchedd), R. Hartshorn (Pennaeth Diogelwch y Cyhoedd, Gwasanaethau Cymunedol a Hamdden), K. Peters (Rheolwr Polisi Corfforaethol), R. Tranter (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol/Swyddog Monitro) a C. Evans (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor).

### 1. YMDDIHEURIADAU DROS ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan D. Street (Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai).

### 2. DATGANIADAU O FUDDIANT

Datganodd y Cyng. N. George fuddiant personol a rhagfarnol yn Eitem 6 (Canolfan Adnoddau Cymunedol Arfaethedig yn Nhŷ Sign, Rhisga) a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth.
Datganodd y Cyng. S. Morgan fuddiant personol a rhagfarnol yn Eitem 7 (Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013 - Cynnydd Arfaethedig yn y Ffi Ail-Sgorio) a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth. Mae'r manylion wedi eu cofnodi gyda'r eitem briodol.

### 3. CABINET – 13 MAWRTH 2019

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Mawrth 2019 a'u llofnodi fel cofnod cywir.

## MATERION SYDD ANGEN PENDERFYNIADAU GWEITHREDOL

## 4. CRONDFA DEDDF EGLWYS CYMRU

Argymhellodd yr adroddiad i'r Cabinet nifer o newidiadau i weithredu Cronfa Deddf Eglwys Cymru. Sefydlwyd Cronfa Deddf Eglwys Cymru ar 1 Ebrill 1996 o hen Gronfa Gwent a rhan o hen Gronfa Morgannwg Ganol. Mae'r Gronfa'n cynnwys ardaloedd gweinyddol Blaenau Gwent, Caerffili, Casnewydd, Torfaen a Sir Fynwy, gyda Sir Fynwy yn cael ei dynodi'n Awdurdod Arweiniol.

Roedd yr adroddiad yn cynnig tri newid allweddol i sut mae Cronfa Deddf Eglwys Cymru yn cael ei gweithredu ar hyn o bryd a oedd yn cynnwys cynyddu terfyn uchaf y grant sydd ar gael i sefydliadau, cyflwyno meini prawf ffurfiol mewn perthynas â'r cynllun grant i sicrhau bod ymgeiswyr yn gwbl ymwybodol o sut mae'r cynllun yn cael ei weithredu o fewn Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a chyflwyno cefnogaeth gyfyngedig i unigolion 'eithriadol' mewn perthynas â hyrwyddo addysg.

Ystyriodd y Cabinet yr adroddiad a gofynnodd am ragor o wybodaeth ynghylch hysbysebu'r Cynllun Grant. Eglurodd y swyddogion fod yr holl Grantiau a gomisiynir gan yr Awdurdod ar gael ar wefan y Cyngor, a bydd hefyd stori 'Newyddion Da' yn Newsline, a fydd yn rhoi manylion y grant gan gyfeirio'n benodol at y cynnydd a wnaed.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau a gynhwysir yn Adroddiad y Swyddog:-

(i) cymeradwyo'r terfyn uchaf diwygiedig o £5,000 ar gyfer ceisiadau cynllun grant Cronfa Deddf Eglwys Cymru gan sefydliadau cymunedol a phrosiectau cymunedol, o 1 Ebrill 2019;

(ii) cymeradwyo cyflwyno categori newydd o grantiau o hyd at £1,500 ar gyfer unigolion ‘eithriadol’ mewn perthynas â 'hyrwyddo addysg' a chynnig grantiau o'r fath am hyd at dair blynedd i'r un unigolyn;

(iii) adrodd yr holl geisiadau gan unigolion i'r Panel Grantiau i'r Sector Gwirfoddol i'w hystyried, gydag argymhellion i'w dyfarnu i'w cyfeirio at y Pennaeth Cyllid Corfforaethol i'w hystyried dan bwerau dirprwyedig;

(iv) cymeradwyo cyflwyno meini prawf Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ar gyfer gweithredu cynllun grantCronfa Deddf Eglwys Cymru, o 1 Ebrill 2019 ymlaen.

## 5. CYHOEDDI DATA AM Y BWLCH CYFLOG RHWNG Y RHYWIAU - RHEOLIADAU DEDDF CYDRADDOLDEB 2010 (DYLETSWYDDAU PENODOL AC AWDURDODAU CYHOEDDUS) 2017

Gofynnodd yr adroddiad am gymeradwyaeth y Cabinet i gyhoeddi datganiad ysgrifenedig yr Awdurdod am y Blwch Cyflog rhwng y Rhywiau.

O dan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Penodol ac Awdurdodau Cyhoeddus) 2017, mae'n ofynnol i bob sefydliad a restrir yn Atodlen 2 i'r rheoliadau sy'n cyflogi dros 250 o weithwyr adrodd yn flynyddol ar eu Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau o 2017.

Nodwyd bod y darpariaethau o dan y Rheoliadau hyn yn berthnasol yn unig i gyflogeion a benodir ac a reolir yn uniongyrchol gan y Cyngor. Felly, nid oes angen cynnwys cyflogeion

sy'n cael eu penodi a'u rheoli gan benaethiaid ysgol/Cyrff Llywodraethu o fewn cwmpas Data y Cyngor am y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau.

Eglurwyd bod angen cyhoeddi data'r Cyngor am y Blwch Cyflog rhwng y Rhywiau ar wefan y Cyngor a gwefan y Llywodraeth erbyn 30 Mawrth bob blwyddyn. Rhaid i'r data gynnwys y tâl fesul awr, fel ffigwr cymedrig (yn nodi'r gwahaniaeth rhwng cyfartaledd cyflogau dynion a menywod), a'r ffigur canolrifol (yn nodi'r gwahaniaeth rhwng y canolbwyntiau yn ystod tâl dynion a menywod). Anogir cyflogwyr i gynhyrchu datganiad ysgrifenedig sy'n egluro'r data.

Mae'r Rheoliadau bellach yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi cymedr a chanolrif y bwlch cyflog rhwng y rhywiau sy'n ymwneud â thal bonws. Bydd y Cabinet yn ymwybodol nad yw'r Cyngor yn cynnig cynlluniau cymhelliant gwaith fesul darn na bonws.

Ystyriodd y Cabinet yr adroddiad a mynegodd bwysigrwydd ei gwneud yn glir at ddibenion cyhoeddi nad yw'r adroddiad yn cyfeirio at gyflog cyfartal, ac yn cyfeirio at fwlch cyflog rhwng y rhywiau yn unig. Nodwyd hefyd fod y Cyngor yn cyflogi nifer uchel o staff benywaidd, y mae cyfran ohonynt yn cael eu cyflogi yn rhan-amser, er mwyn rheoli eu cydbwysedd bywyd/gwaith eu hunain. Bydd hyn yn cael effaith ar y data yn yr adroddiad. Sicrhawyd y Cabinet fod pob rôl o fewn y Cyngor yn amodol ar Werthusiad Swydd, a bod pob gweithiwr yn cael ei dalu yn seiliedig ar y rôl, nid ar sail rhyw.

Yn olaf, gofynnodd y Swyddog i'r Cabinet nodi bod gwall teipio yn Atodiad yr adroddiad yn y gyfran o weithwyr gwrywaidd a benywaidd ym mhob chwartel, o dan yr ail chwartel, a ddylai ddatgan "(£8.75 - £10.43)" a gofynnodd am gymeradwyaeth yr Aelodau i'w ddiwygio cyn ei gyhoeddi ar y gwefannau priodol.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

> PENDERFYNWYD, am y rhesymau a gynhwysir yn Adroddiad y Swyddog ac wrth nodi'r newid i Atodiad 1, cytuno cyhoeddi'r datganiad ysgrifenedig (fel atodiad i'r adroddiad) yn manylu ar ddata y bwlch cyflog rhwng y rhywiau ar wefan y Cyngor a gwefan y Llywodraeth ar-lein gan ddefnyddio'r gwasanaeth adrodd ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau.

## 6. CANOLFAN ADNODDAU CYMUNEDOL ARFAETHEDIG YN NHŶSIGN, RHISGA

Datganodd y Cyng. N. George fuddiant personol a rhagfarnol mewn perthynas â'r eitem hon fel aelod ar nifer o Bwyllgorau sy'n ymwneud â'r ardal hon ac o ganlyniad gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth.

Roedd yr adroddiad yn rhoi cynnig i'r Cabinet a gyflwynwyd gan Sefydliad Corfforedig Elusennol, Neuadd Gymunedol a Chanolfan Adnoddau Tŷ Sign, i ddatblygu Canolfan Gymunedol newydd yn Nhŷ Sign, Rhisga.

Roedd yr adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet mewn egwyddor i gefnogi cyflwyno canolfan gymunedol a adeiladir yn bwrpasol ar dir yn Heol y Celyn, Tŷ Sign (a ddangosir gydag ymyl du yn Atodiad 1 yr adroddiad) ac i awdurdodi swyddogion i gynnal trafodaethau pellach ac ymgymryd â'r ymgynghoriadau angenrheidiol.

Nodwyd bod Sefydliad Corfforedig Elusennol newydd ei greu, Neuadd Gymunedol a Chanolfan Adnoddau Tŷ Sign, wedi siarad gyda'r Cyngori weithio mewn partneriaeth â nhw i archwilio dichonoldeb datblygu Canolfan Gymunedol newydd bwrpasol yn Heol y Celyn, Tŷ Sign, Rhisga ar dir a gedwir hefyd gan y Cyfrif Refeniw Tai. Mae Neuadd Gymunedol a Chanolfan Adnoddau Tŷ Sign yn chwilio am gyfnod prydles o 21 mlynedd o leiaf (sy'n angenrheidiol i gwrdd â gofynion y Loteri Fawr), ac ar rent isel, anfasnachol.

Mae'r cynnig yn gyfle i ddatblygu canolfan adnoddau gymunedol newydd a ariennir gan grant allanol ac a fyddai'n disodli cyfleusterau presennol nad ydynt bellach yn addas at y diben ac yn peri atebolrwydd i'r Awdurdod.

Rhoddodd swyddogion fanylion i'r Cabinet am yr ymateb a dderbyniwyd gan Aelod gan gyfeirio at wrthwynebiadau cryf ar sail colli mannau gwyrdd. Gofynnwyd i'r Cabinet hefyd ystyried yr ymateb gan drigolion a Chynghorydd sy'n cynrychioli'r ward honno a oedd yn cefnogi'r datblygiad, a oedd yn teimlo y byddai'n fuddiol i'r ardal, a dim ond rhan fach o'r tir fyddai'n cael ei defnyddio gan y ganolfan.

Gofynnodd yr Aelodau am ragor o wybodaeth am y broses ar gyfer rhyddhau'r tir. Nodwyd bod y Cabinet yn cael ei ofyn i ymrwymo mewn egwyddor i'r datblygiad ar hyn o bryd gan fod ceisiadau am grantiau ar gyfer y cynllun yn dibynnu ar ymrwymiad a darpariaeth tir y Cyngor. Gofynnwyd a chymeradwywyd caniatâd cynllunio ar gyfer y prosiect hwn.

Er bod y Cabinet yn ymwybodol o'r pryderon a godwyd gan un aelod lleol a rhai trigolion, roeddent yn awyddus i gefnogi'r egwyddor gan y teimlid y byddai'n fantais fawr i'r gymuned, ac nad yw'r cyfleusterau presennol bellach yn addas i'r diben.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

> PENDERFYNWYD, am y rhesymau a amlinellwyd yn adroddiad y Swyddog, y dylid cytuno mewn egwyddor i ddarparu canolfan adnoddau cymunedol bwrpasol ar dir o'r enw “Spar Fields” yn Heol y Celyn, Tŷ Sign a dylid awdurdodi swyddogion i gynnal trafodaethau pellach ac ymgymryd â'r ymgynghoriadau gydag adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ar gyfer penderfyniad terfynol.

## 7. DEDDF SGORIO HYLENDID BWYD (CYMRU) 2013 – CYNNYDD ARFAETHEDIG O RAN FFI AIL-SGORIO

Datganodd y Cyng. S. Morgan fuddiant personol a rhagfarnol mewn perthynas â'r eitem hon fel perchennog busnes dau sefydliad bwyd, ac o ganlyniad gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth.

Rhoddodd yr adroddiad wybod i'r Cabinet am yr adolygiad o'r ffi orfodol i fusnesau sy'n cyflwyno ceisiadau ail-sgorio o dan Ddeddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013 a'r Rheoliadau cysylltiedig a gofynnodd am gymeradwyaeth ar gyfer ffi ail-sgorio ddiwygiedig.

Cyflwynodd Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013 a'r Rheoliadau Gynllun Sgorio Hylendid Bwyd gorfodol a ddaeth i rym ddiwedd Tachwedd 2013. Cyflwynodd Adran 12 o'r Ddeddf ffi i fusnesau sydd angen ail-sgorio eu sefydliad busnes bwyd. Cynigiwyd y dylid codi'r ffi bresennol ar gyfer ymweliadau ail-sgorio o £160 i £180 ac unwaith y bydd y broses ail-sgorio wedi dechrau bydd y ffi gyfan yn cael ei chadw.

Gofynnwyd i'r Cabinet nodi y bydd y cynnydd yn darparu cysondeb ledled Cymru, ac mae'n unol â'r cynnydd a gynigiwyd o fewn Awdurdodau Lleol eraill.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

> PENDERFYNWYD, am y rhesymau a gynhwysir yn Adroddiad y Swyddogion, bod y cynnydd yn y ffi ymweliad ail-sgorio hylendid bwyd i £180 yn cael ei gymeradwyo, o 1 Ebrill 2019 ymlaen.

## 8. ASTUDIAETH DDICHONOLDEB ANSAWDD AER HAFODYRYNYS - CYNLLUN TERFYNOL

Roddodd yr adroddiad wybod i'r Cabinet am ganfyddiadau'r Cynllun Terfynol (Atodiad 1 yr adroddiad) ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth â'r Gyfarwyddeb Ansawdd Aer yr Amgylchedd yn Hafodyrynys yn unol â'r Cyfarwyddyd Ansawdd Aer a roddwyd i'r Awdurdod gan Lywodraeth Cymru.

Yn ogystal, gofynnodd yr adroddiad am gytundeb y Cabinet ar gyfer yr opsiwn a ffefrir sy'n sicrhau cydymffurfiaeth â'r Gyfarwyddeb Ansawdd Aer ac i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus 10 wythnos ar y Cynllun Terfynol a'r opsiwn a ffefrir.

Nododd y Cabinet fod yr amcanion ansawdd aer nitrogen deuocsid cenedlaethol yn cael eu rhagori ar leoliadau derbynyddion ar Heol Hafodyrynys. Mae'r monitor nitrogen deuocsid parhaus yn Hafodyrynys yn ffurfio rhan o Rwydwaith Trefol a Gwledig Awtomatig cenedlaethol Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) (AURN). Mae'r rhwydwaith yn system o fonitorau parhaus ledled y DU sy'n llywio Model Hinsawdd Llygredd cenedlaethol, sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion adrodd am ansawdd aer i Ewrop i ddangos cydymffurfiaeth â Chyfarwyddeb Ansawdd Aer yr Amgylchedd. Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a Chyngor Dinas Caerdydd yw dau awdurdod lleol yng Nghymru a amlygir yn y Cynllun Cenedlaethol Nitrogen Deuocsid fel rhai sydd â lleoliadau nad ydynt yn cydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Ansawdd Aer yr Amgylchedd.

Ym mis Chwefror 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Gyfarwyddyd Ansawdd Aer i CBS Caerffili i ymgymryd ag astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer yr ardal ac i benderfynu ar yr opsiwn neu'r fasged o opsiynau a ffefrir a fydd yn sicrhau cydymffurfiaeth ag amcanion ansawdd aer Cyfarwyddeb Ansawdd Aer yr Amgylchedd yn yr 'amser byrraf posibl'. Yn y Cynllun Terfynol, modelwyd 8 mesur gyda 4 yn cael eu diystyru o ddadansoddiad manwl pellach gan fod modelu yn dangos y byddent yn cyfrannu gwelliant dibwys i ansawdd yr aer lleol. Ystyriwyd yn fanylach fesurau yn ymwneud â chyflwyno Parth Aer Glân (ynghyd â newidiadau rheoli traffig/newid signalau) a dymchwel yr eiddo ar ochr ddeheuol yr A472.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r astudiaeth, rhagwelir y byddai dymchwel yr eiddo yn sicrhau cydymffurfiaeth erbyn 2023 a byddai unrhyw fesurau, gan gynnwys Parth Aer Glân, yn sicrhau cydymffurfiaeth erbyn 2026. Felly, mae dymchwel yr eiddo yn cael ei asesu i fod yn cydymffurfio yn yr amser byrraf posibl. Fodd bynnag, o dan yr opsiwn Gwneud y Lleiafswm, mae modelu yn rhagweld y cyflawnir cydymffurfiad ansawdd aer erbyn 2025. Gan ei bod yn debygol y bydd dymchwel yr eiddo yn cael ei ragflaenu gan broses brynu orfodol sy'n cynnwys taliadau gwerth marchnad yn unig i berchnogion, mae'r potensial am galedi i breswylwyr yn bryder gwirioneddol.

Nodwyd bod rhaid cyflwyno'r Cynllun Terfynol a'r opsiwn a ffefrir i Lywodraeth Cymru erbyn 30 Mehefin 2019 fan bellaf.

Rhoddodd swyddogion y manylion am e-bost a dderbyniwyd cyn cyfarfod y Cabinet oddi wrth Lywodraeth Cymru, gan amlygu, er bod yr adroddiad yn amlinellu dau opsiwn i'w hystyried gan y Cabinet, nad yw'r un, "Gwneud y Lleiafswm", yn opsiwn hyfyw ac felly nid yw'n dderbyniol i Weinidogion. Atgoffwyd y Cyngor i ganolbwyntio ar yr amser byrraf posibl.

Gwahoddwyd y Swyddog Monitro i wneud sylwadau ar yr adroddiad. Nodwyd bod Llywodraeth Cymru a deddfwriaeth iechyd y cyhoedd yn ei gwneud yn ofynnol i gydymffurfio cyn gynted â phosibl er mwyn lliniaru'r pryder am iechyd y cyhoedd. Mae'r Cynllun yn cynnig nifer o opsiynau ac argymhelliad ymgynghori cyn gweithredu'r opsiwn a ffefrir. Byddai'r opsiwn dymchwel yn darparu'r dyddiad cydymffurfio cynharach, a gefnogwyd gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, efallai y bydd hyn yn gofyn am Orchymyn Prynu Gorfodol, a all fod yn broses hir, yn dibynnu ar barodrwydd preswylwyr i adael eu cartrefi yn wirfoddol. Cyfeiriodd y Swyddog Monitro at Gyfraith Achosion diweddar, a fyddai'n amlwg yn cefnogi'r opsiwn i

ddymchwel yr eiddo, gan y byddai'n sicrhau cydymffurfiaeth â'r Gyfarwyddeb Ansawdd Aer yn yr amser byrraf posibl ac yn lleihau amlygiad dynol i risg iechyd y cyhoedd.

Mynegodd aelodau'r Cabinet eu pryderon ynghylch lles ariannol preswylwyr, gyda phryderon penodol y gallai Gorchymyn Prynu Gorfodol, a fyddai'n cynnig gwerth marchnad ar gyfer eu heiddo, adael nifer o breswylwyr mewn caledi ariannol os yw eu heiddo yn destun prisiad is. Yn ogystal, er bod yr aelodau'n ymwybodol iawn o effeithiau ansawdd aer yr ardal ar iechyd, mynegwyd pryderon ynghylch iechyd meddwl a lles preswylwyr oherwydd y straen a'r gofid y mae'r sefyllfa wedi'i achosi, heb unrhyw ystyriaeth gan Lywodraeth Cymru.

Archwiliodd yr Aelodau yr opsiwn Gwneud y Lleiafswm, sy'n amcangyfrif y byddai'r ardal yn cydymffurfio erbyn 2025, o ganlyniad i newidiadau mewn technoleg injans a lleihau lefelau allyriadau. Ffodd bynnag, eglurodd Swyddogion mai dim ond rhagdybiaeth enghreifftiol oedd hon a bod ansicrwydd o hyd ynglŷn â hyn.

Ar ôl ystyried yr adroddiad yn helaeth a'r argymhellion, roedd yr Arweinydd yn dymuno nodi bod argymhellion y Cabinet yn seiliedig ar les ariannol trigolion yr ardal yn unig, i atal unrhyw galedi ariannol a straen dilynol.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD derbyn am y rhesymau oedd yn adroddiad y Swyddog ac fel yr amlinellwyd yn y cyfarfod:

(i) Y Cabinet yn cytuno ar yr 'Opsiwn Gwneud y Lleiafswm' fel yr opsiwn a ffefrir ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth â'r Gyfarwyddeb Ansawdd Aer. Yn ogystal, bydd y Cyngor yn lobïo Llywodraeth Cymru am gymorth ariannol ychwanegol er mwyn atal y preswylwyr yr effeithir arnynt rhag cael eu gorfodi i galedi ariannol petai'r opsiwn dymchwel yn mynd rhagddo;

(ii) cytuno ar y Cynllun Terfynol drafft a bod yr ymgynghoriad a ffefrir yn destun ymgynghoriad cyhoeddus 10 wythnos.

## 9. NEWIDIADAU ARFAETHEDIG MEWN FFIOEDD A THALIADAU

Gyfynnodd yr adroddiad am gymeradwyaeth y Cabinet i ddirprwyo swyddogion i gymhwyso newidiadau i ffioedd a thaliadau penodol o fewn y Gyfadran Cymunedau ac i gytuno ar ddirprwyo swyddogion er mwyn sicrhau newidiadau yn y dyfodol er budd effeithlonrwydd busnes.

Yn unol â rheoliadau ariannol yr Awdurdod, mae'n ofynnol cael cymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer unrhyw gynnydd mewn ffioedd a thaliadau uwchlaw'r rhai y cytunwyd arnynt fel rhan o'r broses o osod y gyllideb yn y Cyngor.

Gan nad oedd unrhyw gynnydd cyffredinol mewn ffioedd a thaliadau yn adroddiad y Cyngor Llawn ar gyllideb 2019/20, amlinellwyd yr adroddiad nifer o feysydd gwasanaeth o fewn y Gyfadran Cymunedau lle mae angen cynyddu ffioedd a thaliadau o ganlyniad i amodau chwyddiant a/neu'r farchnad fasnachol a gofynnodd am gymeradwyaeth y Cabinet i ddirprwyo cyfrifoldeb am weithredu unrhyw gynnydd i'r Pennaeth Gwasanaeth perthnasol mewn ymgynghoriad â'r Cyfarwyddwr, yr Aelod Cabinet perthnasol a'r Pennaeth Cyllid Corfforaethol.

Gwahoddodd y Cabinet y Cyng. K. Etheridge, a oedd wedi gofyn am gael siarad ar yr eitem i annerch y cyfarfod.

Diolchodd y Cynghorydd Etheridge i'r Arweinydd a mynegodd bryderon, er mwyn bod yn agored a thryloyw, nad oedd yr adroddiad wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Polisi ac

Adnoddau cyn iddo gael ei ystyried gan y Cabinet, ac na chafodd ei ystyried fel rhan o'r broses o osod y Gyllideb.

Cyfeiriwyd y Cabinet at nifer o bwyntiau yn yr adroddiad, gan gynnwys y tabl yn 5.11 yr adroddiad, a amlinellwyd rhestr o wasanaethau lle mae angen cytuno ar hyblygrwydd i gymhwyso newidiadau i ffioedd ar gyfer 2019/20 ac eglurodd y dylai'r Pwyllgor Craffu Polisi ac Adnoddau wedi cael eu hymgynghori ar yr adroddiad, gan nad oedd wedi bod yn rhan o'r broses o osod y Gyllideb cyn iddi gael ei hystyried yn y Cabinet.

Gwahoddwyd y Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Gymunedau i ymateb i sylwadau'r Cynghorydd.

Nodwyd bod yr Adran Cymunedau yn darparu nifer fawr o wasanaethau dewisol lle na chytunwyd ar gynnydd mewn ffioedd eleni, ac mae'r adran yn darparu enghreifftiau o feysydd gwasanaeth neu weithgareddau penodol lle byddai angen cymhwyso newidiadau i ffioedd fesul achos gan ystyried y farchnad fasnachol y mae'r gwasanaeth neu'r gweithgaredd hwnnw yn gweithredu ynddi. Yn ogystal, gofynnwyd i'r Cabinet nodi, gyda natur newidiol yr Awdurdod Lleol, cyfyngiadau cyllideb a mesurau caledi, mae wedi bod yn hanfodol i'r Cyngor edrych ar ffyrdd mwy deinamig o wneud arbedion. O ganlyniad, mae'n ofynnol i'r Cyngor fod yn fwy masnachol ac ymatebol i'r amgylchedd, gyda'r nod o gynnal nifer o wasanaethau dewisol a allai, fel arall, gael eu bygwth o ganlyniad i arbedion Cynllunio Ariannol Tymor Canolig a chwrdd â chyllideb gytbwys. Gofynnwyd hefyd i'r Cabinet nodi y bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno maes o law ynglŷn â Strategaeth Fasnachol, a fyddai ar gael i'w ystyried gan y Pwyllgor Craffu ar yr adeg briodol.

Gofynnwyd i'r Swyddog Monitro wneud sylwadau ar yr adroddiad. Nodwyd yr oedd sail bosibl i'r adroddiad gael ei alw i mewn, fodd bynnag, cwestiynwyd ei werth o wneud hynny gan fod yr adrodd a'r gwneud penderfyniadau ar ffioedd a thaliadau yn glir yn yr adroddiad ac ar gael yn gyhoeddus ar wefan y Cyngor.

Yn ogystal, nodwyd bod Adroddiadau Cabinet perthnasol, a ystyriwyd cyn pob Pwyllgor Craffu, wedi'u nodi ar agenda'r Pwyllgor Craffu, ac mae gan yr Aelodau yr opsiwn i "alw ymlaen" yr adroddiad cyn Cyfarfod y Pwyllgor, er mwyn i drafodaeth ddigwydd yn y Pwyllgor Craffu perthnasol.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhelliad yn yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy godi dwylo.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddog: -

(i) Nodirr gwasanaethau lle mae angen gwneud newidiadau i ffioedd a thaliadau a rhoi awdurdod i'r Pennaeth Gwasanaeth perthnasol mewn ymgynghoriad â'r Cyfarwyddwr, yr Aelod Cabinet perthnasol a'r Pennaeth Cyllid Corfforaethol i weithredu newidiadau yn unol â chwyddiant a/neu amodau masnachol sy'n bodoli ar gyfer y gwasanaeth (au)

(ii) Mae'r Pennaeth Gwasanaeth perthnasol yn cofnodi ac yn postio unrhyw gynnydd mewn ffioedd a thaliadau yn unol â chynllun neu ddirprwyaeth yr awdurdod

Terfynwyd y cyfarfod am 12.04 pm.

Cymeradwywyd a llofnodwyd fel cofnod cywir yn amodol ar unrhyw gywiriadau a wnaed yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Ebrill, 2019.

CADEIRYDD